# Arwain 2025

Prifysgol Abertawe
Swansea University

## Enw da Abertawe'n mynd o nerth i nerth

Gyda chlod cynyddol am yr hyn sydd ganddi i'w gynnig i'w myfyrwyr, mae enw da Prifysgol Abertawe yn parhau i fynd o nerth i nerth – yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Yn 2024, cafodd Abertawe ei henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru gan bapurau newydd *The Times* a *The Sunday Times*, ac mae wedi cadw ei theitl fel Prifysgol Orau Cymru yn *The Guardian University Guide* hefyd.

Mae *The Times* yn ei gosod yn y $37^{\text{ain}}$ safle ymhlith holl brifysgolion y Deyrnas Unedig, gan ddringo pedwar safle o'i gymharu â'r llynedd. Mae'n cael canmoliaeth arbennig yn yr arolwg am ei phwyslais parhaus ar adeiladu gyrfaoedd, a hefyd am y profiad o safle ar lan y môr i fyfyrwyr.

Mae'r anrhydedd ddiweddaraf yn dilyn ei chydnabyddiaeth yn *The Guardian University Guide 2025*, sydd yn ei rhoi yn y $29^{\text{ain}}$ safle o 122 o sefydliadau addysg uwch ym Mhrydain.

Mae'r *Guardian University Guide* yn helpu darpar fyfyrwyr a'u teuluoedd i ddewis ble i astudio, gan bwyso a mesur ffactorau fel ansawdd addysgu, boddhad myfyrwyr, maint dosbarthiadau a chanran y graddedigion sy'n cael swyddi lefel raddedig neu sy'n ymgymryd ag addysg bellach o fewn 15 mis o orffen eu gradd.

Yn ôl canllaw diweddaraf y *Complete University Guide*, roedd Abertawe'n rhagori mewn pynciau unigol, gan gyrraedd y safle uchaf yn y DU ar gyfer Meddygaeth Gyflenwol, a chwe phwnc arall yn cyrraedd y 10 uchaf, gan gynnwys Gwyddor Chwaraeon a Gwaith Cymdeithasol.

Yn ogystal â chlod ar lefel Brydeinig, cyrhaeddodd Abertawe ei safle uchaf erioed yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS 2026, gan godi i safle 292 a chadarnhau ei lle ymhlith 300 o brifysgolion gorau'r byd.

Ym mis Mehefin eleni, cyrhaeddodd Abertawe'r $36^{\text{ain}}$ safle yn y byd am ei chyfraniad at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs), yn ôl Tablau Effaith *Times Higher Education*. Gyda sgôr gyffredinol nodedig o 93.8 allan o 100, mae Abertawe'n gadarn ymhlith y 40 uchaf yn y byd allan o 2,318 o sefydliadau, ac yn y pumed safle yn y DU.

"Roedd yn bleser mawr gweld Prifysgol Abertawe yn esgyn yn y tablau unwaith eto eleni," meddai'r Athro Paul Boyle, Is-ganghellor Prifysgol Abertawe.

"Mae'r anrhydeddau hyn yn amlygu ein hymrwymiad parhaus i gynnig profiad o'r radd flaenaf i'n myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe, ynghyd â dysg o safon uchel ar sail ein rhagoriaeth ymchwil, sy'n eu paratoi ar gyfer dyfodol llwyddiannus."





## Ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn clefydau Parkinson ac Alzheimer

Mae ysgolhaig blaenllaw o Brifysgol Abertawe wedi bod yn cyfrannu at ymchwil rhyngwladol i wella'n dealltwriaeth o'r ddau gyflwr creulon sy'n dinistrio'r ymennydd, clefyd Parkinson a chlefyd Alzheimer.

Wrth dderbyn Dyfarniad Ysgolhaig Holl Ddisgyblaethau Fulbright, treuliodd Dr Jeff Davies o'r Ysgol Feddygaeth rai misoedd yn gynharach eleni yn y gyfadran niwrowyddoniaeth fyd-enwog yn Sefydliad Salk yn San Diego, California.

Cafodd Dr Davies ei ddewis o blith carfan gystadleuol iawn o ymgeiswyr i ymchwilio'r cysylltiadau cymhleth rhwng endocrin, imiwnedd, a systemau nerfol, gan ganolbwyntio ar heneiddio a chlefyd.

Mae Dr Davies wedi bod yn Athro Cysylltiol yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe ers 2013, ac yn ystod ei amser mae wedi darganfod rolau newydd mae hen hormonau yn eu chwarae, a chysylltu ffactorau yn y gwaed â'r ffyrdd mae clefyd Parkinson a Dementia yn amharu ar weithrediad yr ymennydd.

"Nod fy ngwaith yw dyfnhau ein dealltwriaeth o sut mae'r systemau hyn yn rhyngweithio, yn benodol yng nghyd-destun clefyd Parkinson a chlefyd Alzheimer," esboniodd Dr Davies.



"Roedd yn fraint o'r mwyaf gen i dderbyn yr Ysgoloriaeth Fulbright. Mae labordy'r Athro Fred Gage yn Sefydliad Salk ar flaen y gad mewn ymchwil i'r ymennydd, ac wedi datblygu dulliau arbrofol newydd i astudio celloedd sy'n bresennol yn systemau nerfol hen bobl.

"Ro'n i hefyd yn falch i greu cydweithrediadau newydd yn Salk a fydd yn cyfrannu at ganfyddiadau biofeddygol ystyrlon, a fydd yn ein helpu i drin clefydau'n well a gwella bywydau cleifion."

## Gradd Fferylliaeth i gynnig darpariaeth Gymraeg am y tro cyntaf

***Bydd darpariaeth Gymraeg ar gael am y tro cyntaf ar y cwrs gradd MPharm Fferylliaeth ym Mhrifysgol Abertawe o fis Medi ymlaen. Mae'r Athro Ymchwil Delyth James a'r Uwch-ddarlithydd Dr Gwenno Williams yn edrych ymlaen at ddatblygiadau a fydd yn cyfoethogi profiadau Cymraeg darpar fferyllwyr …***

Daw'r **Athro Delyth James** â degawdau o brofiad eang yn y byd academaidd ac mewn sefydliadau clinigol i'r swydd ac mae'n credu ei bod hi'n hollbwysig meithrin gallu fferyllwyr i gynghori cleifion yn eu hiaith eu hunain ac felly mae'r cam hwn yn natblygiadau Cymraeg y cwrs yn newyddion cyffrous tu hwnt.

"Seicoleg iechyd yw maes fy ymchwil, sy'n ymwneud â pharodrwydd cleifion i gymryd meddyginiaethau a glynu at eu cwrs o driniaeth wedyn," meddai. "Mae parodrwydd claf i dderbyn cyngor fferyllydd neu feddyg yn dibynnu ar lawer o ffactorau, fel credoau er enghraifft, ond does dim amheuaeth fod y gallu i gyfathrebu yn iaith gyntaf y claf yn helpu creu perthynas.

"Felly, yn ogystal â'r syniad o sicrhau tegwch i gleifion Cymraeg, mae'r gallu i siarad iaith y claf yn fater o gymhwysedd meddygol a all effeithio'n uniongyrchol ar ganlyniadau clinigol."



Mae hi bellach yn rhoi arbenigedd ei hymchwil ar waith trwy gynorthwyo **Dr Gwenno Williams** i ddatblygu darpariaeth Gymraeg bwrpasol i fyfyrwyr ar y cwrs Fferylliaeth. O fis Medi eleni bydd modd dilyn modiwl gwerth 60 credyd yn y drydedd flwyddyn sy'n galluogi myfyrwyr Cymraeg i ymgymryd â phrosiect ymchwil o fewn meysydd fel cemeg fferyllol, ffarmasiwteg neu fferylliaeth glinigol trwy'r Gymraeg.

Meddai Gwenno: "Dyma'r cam cyntaf tuag at gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ar y cwrs. Rydyn ni'n bwriadu cynnal gweithdy gyda'n myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i feithrin hyder yn eu sgiliau cyfathrebu mewn cyd-destun clinigol dros y flwyddyn nesaf."

Ymhlith y myfyrwyr sy'n edrych ymlaen at ddefnyddio'r Gymraeg fel fferyllydd yn y dyfodol yw Casi Jones.



"Dw i wedi mwynhau'r cwrs yn fawr, yn enwedig y cyfle i weithio ar leoliad bob blwyddyn, gan mai dysgu mewn ffordd ymarferol yw'r mwyaf buddiol yn fy marn i," meddai Casi.

"Ro'n i'n ddigon ffodus hefyd i ysgrifennu fy nhraethawd hir ar y defnydd o'r Gymraeg mewn fferylliaeth mewn ysbytai. Mae hwn yn bwnc rydw i'n teimlo'n hynod o angerddol amdano, ac ro'n i'n falch o glywed llawer o sylwadau positif am welliant mewn defnydd o gyfleusterau clinigol yn y Gymraeg."



# Daearyddwyr sy'n arloesi yn eu maes

***Mae Adran Daearyddiaeth Prifysgol Abertawe, a oedd yn dathlu 70 mlwyddiant yn gynharach eleni, yn cynnwys arbenigwyr sy'n cael eu cydnabod fel arloeswyr mewn meysydd mor amrywiol â llosgfynyddoedd Gwlad yr Iâ a choedwigoedd mangrof ar arfordiroedd trofannol …***

## Gwersi o losgfynyddoedd Gwlad yr Iâ

Llosgfynyddoedd Gwlad yr Iâ yw pwnc arbenigol Dr Rhian Meara, sydd wedi bod yn ddarlithydd yn yr Adran Ddaearyddiaeth yn Abertawe ers 2014.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ei hymchwil arloesol yn ymwneud ag echdoriadau (ffrwydradau) llosgfynyddoedd ac effeithiau hynny ar gymunedau cyfagos, ac mae wedi cyfrannu deunydd addysgol helaeth ar ei phwnc.

Yn ddiweddar, dyfarnodd Cymdeithas Ddaearyddol Prydain wobr arian i gyfres o fideos ar gyfer ysgolion am losgfynyddoedd Gwlad yr Iâ sy'n seiliedig ar ei hymchwil.

Cafodd y gyfres, *'Isle of Fire'* glod uchel am ddod â'r echdoriadau hyn yn fyw i'r ystafell ddosbarth, gan roi dealltwriaeth ddyfnach i fyfyrwyr o sut mae rhagweld echdoriadau folcanig a rheoli eu peryglon.

"Roedd y deunydd yn cynnwys un astudiaeth achos o echdoriad llosgfynydd Eldfell ar ynys Heimaey ger arfordir Gwlad yr Ia yn 1973," meddai Rhian. "Bu'n rhaid symud holl boblogaeth yr ynys i'r tir mawr, ac mae'r ffordd yr oedd yr awdurdodau yn ymateb i'r echdoriad ac echdoriadau eraill mwy diweddar yn dal yn berthnasol heddiw, gan fod gwersi i'w dysgu."

Fel ymwelydd cyson â'r wlad dros y blynyddoedd, roedd hi'n arbennig o falch o'r cyfle i arwain 24 o fyfyrwyr ail flwyddyn yr Adran Ddaearyddiaeth ar daith gwaith maes yno'n gynharach eleni.

"Mae taith dramor ar gyfer gwaith maes wedi bod yn rhan annatod o'r cwrs Daearyddiaeth ar hyd y blynyddoedd, ond eleni oedd y tro cyntaf inni gynnig Gwlad yr Ia fel opsiwn," meddai.

"Roedd yn gyfle gwych i gyfuno fy ngwaith ymchwil â rhoi profiad ymarferol a chofiadwy i'r myfyrwyr.

"Mae Gwlad yr Iâ yn lle anhygoel yn ddaearyddol, a chafodd y myfyrwyr gyfle i astudio holl agweddau o ddaearyddiaeth y wlad. Fel rhywun sydd â chefndir mewn daeareg, ro'n i'n canolbwyntio ar nodweddion fel rhewlifoedd a llosgfynydd, tra bu Erin fy nghydweithwraig yn ymdrin ag agweddau mwy dynol fel defnydd y wlad o ynni adnewyddadwy ac effaith twristiaeth ar ei heconomi a'i hamgylchedd."

Un o'r myfyrwyr a gafodd fynd ar y daith oedd Sian Abnett:

"Roedd y daith i Wlad yr Iâ yn wirioneddol wych," meddai. "Nid yn unig fel profiad cyffredinol ond, roedd yn golygu fy mod i'n gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg, ynghyd â'r fantais o gael staff sy'n siarad Cymraeg. Ers y daith, rydw i wedi bod yn meddwl am gymryd mwy o fy nghwrs yn y Gymraeg."



## Cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol



Arbenigo mewn materion yn ymwneud â chynaliadwyedd a'r argyfwng newid hinsawdd mae darlithydd arall sy'n cyfrannu at ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg Adran Ddaearyddiaeth Abertawe.

Yn wreiddiol o Lanfrothen yng Ngwynedd, graddiodd Erin mewn Daearyddiaeth yn Aberystwyth yn 2010, cyn cwblhau doethuriaeth mewn Gwyddor Gymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd.

"Mae fy ngwaith i'n ymwneud â materion amgylcheddol a chymdeithasol, a'r berthynas gymhleth rhyngddyn nhw," meddai.

"Mae angen dealltwriaeth drylwyr o sut mae polisïau amgylcheddol yn cael eu profi gan gymunedau lleol yn ogystal â'u canfod gan lunwyr polisi cyhoeddus.

"Wrth ganolbwyntio ar faterion fel hyn, nod fy ymchwil ydi datblygu gwybodaeth academaidd a all gyfrannu'n ymarferol at bolisi a lles cymunedol yn ogystal."

## Troi at goed mangrof am atebion i broblemau cyfoes

Gallai adfer cynefinoedd coed mangrof gynnig atebion i rai o'r problemau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw.

Dyna yw neges arbenigwr ar arfordiroedd yn yr Adran Ddaearyddiaeth, sydd wedi ymchwilio'n helaeth i ddeltâu afonydd a'r heriau sy'n eu hwynebu.

Bu Dr Cai Ladd yn cymryd rhan yn ddiweddar yn yr uwch-gynhadledd ryngwladol gyntaf ar ddiogelu deltâu yn Bangkok.

"Mae coedwigoedd mangrof yn chwarae rhan allweddol mewn cynnal cydbwysedd ecolegol mewn gwlyptiroedd," esboniodd Cai. "Maen nhw'n diogelu deltâu afonydd rhag cael eu herydu gan lifogydd wrth glymu'r pridd at ei gilydd ac arafu llif dŵr, a thrwy hynny'n diogelu bywydau a chartrefi yn rhai o rannau mwyaf poblog y byd.

"Lawn cyn bwysiced, mae wedi dod i'r amlwg hefyd fod coed mangrof yn rhagorol am ddal a storio carbon – yn fwy effeithiol mewn gwirionedd na'r fforestydd glaw – ac o'r herwydd o'r pwys mwyaf wrth geisio lliniaru newid yn yr hinsawdd."

Fel un sydd wedi ymgyrchu am weithredu byd-eang i ddiogelu deltâu, ei obaith yw y bydd yr uwch-gynhadledd yn gam cyntaf pwysig ymlaen.

"Daeth tua 140 ohonom o 24 o wledydd ar draws pedwar cyfandir i ddatblygu polisïau ar gadwraeth deltâu o dan Gonfensiwn newydd y Cenhedloedd Unedig," meddai.

"Mae deltâu afonydd, sy'n gartref i fwy na hanner biliwn o bobl, yn wynebu bygythiadau enbyd yn sgil newid hinsawdd, ar ben effeithiau llygredd a threfoli, gan arwain at beryglon i'w bioamrywiaeth, diogelwch bwyd, a'u cymunedau lleol."



Cai, a ddaw yn wreiddiol o bentref Beulah yng Ngheredigion, sy'n gyfrifol am y modiwl Arfordiroedd yn yr Adran Ddaearyddiaeth yn Abertawe.

"Mae'r modiwl hwn yn gyflwyniad i'r arfordiroedd a'r cymunedau sy'n dibynnu arnyn nhw," meddai. "Yn ogystal ag archwilio sut mae arferion anghynaliadwy yn niweidio arfordiroedd mae hefyd yn edrych ar y camau y gall cymdeithas eu cymryd i ddiogelu arfordiroedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."



## Hanes achosion llys yn datgelu darlun o'r gymdeithas yn Abertawe

Mae enillydd cyntaf Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi newydd gwblhau doethuriaeth sy'n codi cwr y llen ar fywyd cymdeithasol yn Abertawe dros ganrif yn ôl.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Alpha Evans wedi bod yn canolbwyntio ar hanes cyfraith a threfn yn y ddinas a'r ardal gyfagos rhwng 1891 ac 1920, gan ddefnyddio adroddiadau papur newydd a thrafodion llysoedd o'r cyfnod.

"Astudiaeth gymdeithasol a diwylliannol o Abertawe yw hon yn ei hanfod," esboniodd Alpha, sy'n hanu'n wreiddiol o Lanbedr Pont Steffan. "Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw bod hanes troseddu yn ddrych o'r gymdeithas yn gyffredinol, sy'n ein galluogi ni i ddeall hanes yr ardal a'r gymdeithas yn well.

"Mae hanes haenau mwyaf difreintiedig y gymdeithas wedi cael ei anwybyddu i raddau helaeth, a rhan o'm hamcan yn yr astudiaeth hon oedd rhoi llais i'r di-lais."

Er bod Abertawe wedi bod yn ddinas amrywiol ei phoblogaeth o'r cychwyn, gwelodd dwf aruthrol mewn poblogaeth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg o ganlyniad i fewnfudo ar raddfa fawr.

"Roedd Gwyddelod yn arbennig yn ffurfio cyfran sylweddol o'r boblogaeth yng nghyfnod fy astudiaeth, gyda gwrthdaro diwylliannol a chrefyddol yn gyffredin," meddai Alpha. "Roedd hyn yn wir o ran rhagfarnau yn eu herbyn ond roedd gwahaniaethau crefyddol yn cyfrif am wrthdaro rhwng Gwyddelod a'i gilydd hefyd."

Tua thraean o boblogaeth y ddinas oedd yn gallu siarad Cymraeg erbyn cychwyn cyfnod yr astudiaeth, ond roedd cyfran sylweddol o'r rhain yn ddigon prin eu Saesneg.

"Un hanes diddorol yw am Gymro a oedd wedi dioddef trosedd yn gwrthod mynd i'r llys i roi tystiolaeth oherwydd nad oedd yn teimlo bod ei Saesneg yn ddigon da," meddai Alpha. "Mae hyn yn dangos effaith diffyg statws i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod."

"Roedd ennill Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi yn fraint fawr, ac roedd y ffaith ei bod yn enw un o'n cewri a wnaeth gymaint dros Gymru yn fy symbylu a'm hysgogi ar hyd y daith," meddai Alpha.

## Ennill Medal Bobi Jones yn Eisteddfod yr Urdd

Myfyriwr sydd newydd gwblhau ei flwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Abertawe oedd enillydd Medal Bobi Jones yn Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam eleni.

Mae Joe Morgan yn astudio Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Chyfathrebu yn y Brifysgol, ac mae hefyd yn un o lysgenhadon y Coleg Cymraeg.

Caiff Medal Bobi Jones ei dyfarnu i unigolyn 19-25 oed sydd wedi dysgu a meistroli'r Gymraeg fel ail iaith ac sy'n gallu dangos sut mae'n defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd. Mae'r cystadleuwyr yn gorfod ateb cwestiynau am eu rhesymau dros ddysgu'r iaith, yr effaith mae hyn wedi'i chael ar eu bywyd, a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Joe wedi chwarae rhan flaenllaw ym mywyd Cymraeg y Brifysgol.

"Fe wnes i ymuno â'r Gymdeithas Gymraeg i gael ymarfer mewn lle cymdeithasol a phrofi mwy o'r diwylliant," meddai Joe, a ddaw o Gaerdydd.

"Yn ystod fy amser fel llysgennad y Coleg Cymraeg dw i hefyd wedi cael cyfle i wneud fideos Cymraeg ar-lein, a dw i wedi bod wrth fy modd yn gwneud hynny.

"Yn gyffredinol, mae fy nhaith i astudio'r iaith wedi fy ngalluogi i werthfawrogi a charu'r iaith a'r diwylliant, a dw i mor ddiolchgar am bob drws mae'r iaith wedi'i agor imi."

Cafodd Medal Bobi Jones ei rhoi gan Dŷ'r Gwrhyd – Canolfan Gymraeg Cwm Tawe a Nedd sy'n bartneriaeth rhwng Academi Hywel Teifi a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.




## Aelwyd yr Elyrch yn dathlu llwyddiant

Mae ymweliad Eisteddfod yr Urdd â Pharc Margam wedi bod yn hwb sylweddol i aelwyd a gafodd ei sefydlu ychydig dros dair blynedd yn ôl yn Abertawe.

Fe fu Aelwyd yr Elyrch yn fwrlwm o weithgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf wrth baratoi ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod yn ei hardal.



Mae'r aelodau bellach yn dathlu eu llwyddiant wedi i'r Aelwyd ennill eu medalau cyntaf. Daeth yr Aelwyd yn drydydd yn y Grŵp Llefaru dan 25, a daeth dwy o'r aelodau, Casi ac Elen, yn drydydd yn y Ddeuawd Cerdd Dant 19-25 oed.

"Roedd ein llwyddiant yn Eisteddfod Dur a Môr yn fwy arbennig gan ein bod yn cystadlu ar garreg ein drws," meddai Swyddog yr Aelwyd, Emily Evans.

"Rydyn ni wedi tyfu cryn dipyn ers i griw ohonom ddod at ein gilydd i sefydlu'r Aelwyd ym mis Ionawr 2022, ac mae gennyn ni bellach 25 o aelodau. Myfyrwyr ydyn ni'n bennaf, ond rydyn yn aelwyd gymunedol hefyd sy'n agored i bawb.

"Rydyn ni wedi bod yn cyfarfod yng Nghanolfan Taliesin yn y Brifysgol yn gyson ar nos lau.

"Mae pethau am fod yn dawel dros wyliau'r haf gan y bydd llawer o'n haelodau ar chwâl, ond fe fyddwn ni'n ailgychwyn o ddifrif ym mis Medi. Fe fyddwn ni'n sicr o barhau i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, felly Ynys Môn amdani'r flwyddyn nesa!"



COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL
CANGEN PRIFYSGOL ABERTAWE

## Ar flaen y gad wrth feithrin gweithwyr iechyd y dyfodol



Mae'r genhedlaeth nesaf o weithwyr iechyd yn derbyn hyfforddiant o'r radd flaenaf yn un o'r canolfannau mwyaf arloesol o'i math yn y byd ym Mhrifysgol Abertawe.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae darpar feddygon, parafeddygon, bydwragedd a nyrsys ymhlith y rhai sydd wedi cael profiadau rhyfeddol wrth ddefnyddio'r Ganolfan Ddysgu trwy Efelychu a Throchi (SUSIM) yn y Brifysgol.

Drwy gyfrwng y dechnoleg ddiweddaraf, mae'r ganolfan hon yn ail-greu ac efelychu sefyllfaoedd yn y byd go-iawn, gan gynnwys argyfyngau sy'n galw am driniaeth feddygol frys, er mwyn helpu paratoi myfyrwyr ar gyfer yr hyn a fydd yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Mae'r ganolfan SUSIM yn arloesi hefyd wrth gyflwyno'r sefyllfaoedd rhithwir hyn yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg – boed y rhain yn efelychiadau o theatr ysbyty, damwain ddifrifol neu ward plant.

Yn fuan ar ôl agor y llynedd, cafodd y Ganolfan hwb ychwanegol drwy gael ei phenodi i gydlynu prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu adnoddau addysgu a hyfforddi ar sail efelychu (SBET) i gefnogi addysg uwch gyfrwng Cymraeg ym maes iechyd.

"Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at un o amcanion Llywodraeth Cymru o ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol," esboniodd Dr Alwena Morgan, Arweinydd y Gymraeg yng Nghyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd.

"Mae hefyd yn gydnaws â Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Efelychiad Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Gofal Iechyd sy'n pwysleisio rôl bwysig SBET ym maes addysg a hyfforddiant proffesiynol yn benodol."

Mae natur realistig yr efelychu rhithwir sy'n digwydd yn y ganolfan yn destun rhyfeddod ymysg staff yn ogystal â'r myfyrwyr.

"Pan ddois i'r ganolfan drochi am y tro cyntaf roedd o'n agoriad llygad, ac ro'n i'n teimlo'n union fel pe bawn i mewn theatr go-iawn mewn ysbyty," meddai'r Athro Ffion Williams, Pennaeth Meddygaeth Ôl-raddedig Prifysgol Abertawe.

Mae'n myfyrwyr ni yn dysgu'r ffeithiau mewn dosbarth i ddechrau, wedyn maen nhw'n cael dod i le fel hyn lle maen nhw'n cael siawns i ymarfer o dan sefyllfa sy'n teimlo'n real iawn.

"Wrth gwrs, mi fydd yn rhaid i'r myfyrwyr fynd allan ar leoliad hefyd i gael profiad efo cleifion go-iawn, ond mae hyn yn gallu gwneud eu haddysg yn fwy cyflawn cyn hynny. Mae'r ganolfan yn lle saff i'r myfyrwyr hefyd, lle maen nhw'n gallu gwneud camgymeriadau.

"Felly mae o'n saffach i'r cleifion, ac yn saffach hefyd i iechyd meddwl a lles ein myfyrwyr ni."

## Llysgenhadon y Coleg Cymraeg

### Llysgenhadon Israddedig



**Joe Morgan**
Newyddiaduraeth, Cyfryngau a Chyfathrebu



**Megan Beasley**
Cyfryngau, Chwaraeon a Diwylliant



**Lois Davies**
Ffarmacoleg Feddygol

### Llysgenhadon Ôl-raddedig



**Emily Evans**
PhD mewn llenyddiaeth yn Adran y Gymraeg



**Maisie Edwards**
Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd



**Cara Medi Walters**
MA mewn Cyfathrebu, Arferion y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus

## Dathlu llwyddiant darlithydd a myfyriwr

Mae darlithydd a myfyriwr o Abertawe wedi cael eu hanrhydeddu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am eu cyfraniad i fywyd Cymraeg y Brifysgol.

Heledd Evans oedd enillydd Gwobr Meddygaeth William Salesbury am ei chyfraniad i weithgareddau Cymraeg y tu allan i'w chwrs yn yr Ysgol Feddygaeth.



Enillodd Dr Non Vaughan Williams wobr Dathlu'r Darlithydd, wedi i fyfyrwyr ei henwebu fel rhywun sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau yn y Brifysgol trwy'r Gymraeg.

Roedd y ddwy ymhlith 13 o bobl a gafodd eu gwobrwyo mewn seremoni arbennig yng Nghanolfan S4C yr Egin, nos lau 19 Mehefin.

"Roedd hi'n fraint fawr derbyn Gwobr Meddygaeth William Salesbury," meddai Heledd, sy'n gobeithio cwblhau ei gradd Meddygaeth o fewn y flwyddyn nesaf. "Mi fydd y gydnabyddiaeth yma'n sicr o roi hwb mawr i bawb o fewn y Gymdeithas Feddygol Gymraeg i ddyfalbarhau i dyfu'r gymuned er mwyn annog ein cyfoedion i fod yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith. Y flwyddyn nesaf, dw i wedi ymgeisio i gael bod ar leoliad mewn meddygfa wledig, lle dw i'n gobeithio gallu ymarfer siarad gyda chleifion yn eu mamiaith."



Uwch-ddarlithydd Cyfryngau Digidol y Brifysgol yw Dr Non Vaughan Williams, sy'n dod yn wreiddiol o Dregaron ond sydd bellach yn byw yn Llanddarog ger Caerfyrddin.

"Mae'r wobr yn golygu tipyn i mi gan mai myfyrwyr sydd wedi fy enwebu," meddai. "Dw i wedi bod yn addysgu ers rhai blynyddoedd yn y sector addysg uwch, felly mae'n hyfryd i gael y gydnabyddiaeth mod i'n dal i wneud rhywbeth yn iawn!

"Bydd y wobr yn rhoi hyder i mi barhau gyda'r gwaith o gyfoethogi profiad myfyrwyr, er gwaetha'r heriau a'r newidiadau yn y sector.

"I'r dyfodol, rwy'n gobeithio ymgorffori dulliau addysgu arloesol yn y dosbarth fel bod myfyrwyr yn graddio'n hyderus ac yn barod i fynd ymlaen i'r byd gwaith, neu i wneud ymchwil ôl-radd."

Meddai Cara Walters, un o'r myfyrwyr a wnaeth ei henwebu:

"Mae brwdfrydedd ac angerdd Non dros sicrhau bod cynnwys ac adnoddau ar gael yn y Gymraeg yn dangos ei phenderfyniad i sicrhau yr un cyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg o fewn y Brifysgol."

# Y GwyddonLe yn denu torfeydd mwy nag erioed

Cafodd gwyddonwyr Prifysgol Abertawe y pleser o ddarparu eu rhaglen flynyddol o weithgareddau gwyddonol ar faes Eisteddfod yr Urdd yn eu hardal eu hunain eleni.

Roedd stondin y GwyddonLe ar y maes ym Mharc Margam yn orlawn drwy gydol yr wythnos wrth i ymwelwyr o bob rhan o Gymru fwynhau'r arlwy amrywiol a drefnwyd ar eu cyfer.





Roedd y gweithgareddau, a oedd yn dilyn y thema 'Gwreiddiau' eleni yn amrywio o fyd rhyfeddol gwymon, atal llifogydd arfordirol a dysgu am hanes Meddygon Myddfai a llawer mwy.

Fe fu'r Ysgol Feddygaeth yn dangos sut i achub bywydau trwy CPR a diffibriliwr ac yn trafod DNA a gwreiddiau clefydau. Dangosodd yr Ysgol Beirianneg sut y gallai hydrogen helpu at greu dyfodol egni gwyrdd, ac mai yn Abertawe y cafodd y dechnoleg hon ei dyfeisio gan Syr William Robert Grove.

Ym Margam hefyd yr adeiladwyd un o gyfrifiaduron mwyaf poblogaidd yr 1980au, a chafodd plant ac oedolion gyfle i chwarae gemau ar beiriannau'r cyfnod a dysgu mwy am eu hanes a'u cefndir.

Cafwyd cyfle hefyd i ddysgu am esblygiad technoleg mewn pyllau glo – trwy gyfrwng deallusrwydd artiffisial. Roedd hyn gyda help robot arbennig o'r enw Gethin a allai ateb pob mathau o gwestiynau am byllau glo.

Yn ogystal â'r stondinau gwyddonol, cafwyd gweithgaredd crefft arbennig i nodi 80 mlynedd ers bomio Hiroshima a Nagasaki lle'r oedd cyfle i greu crëyr origami. Roedd hyn yn digwydd law yn llaw â Llywodraeth Cymru'n nodi 2025 fel blwyddyn Cymru a Japan, ac roedd yn gyfle i wahodd ieuenctid Cymru i greu'r symbolau yma o heddwch ac yna eu harddangos tu allan i'r GwyddonLe. Bydd yr holl origami yn cael eu hanfon at Gofeb Heddwch y Plant ym Mharc Coffa Heddwch Hiroshima i ymuno â'r miloedd ger Cofeb Heddwch y Plant er mwyn coffau'r plant a laddwyd gan y bom atomig a chyfleu ewyllys a dymuniad plant Cymru am heddwch i'r dyfodol.

Meddai'r Athro Gwenno Ffrancon, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol ar gyfer y Gymraeg, ei Threftadaeth a'i Diwylliant a Chyfarwyddwr Academi Hywel Teifi: "Wedi'r holl gyffro ac edrych ymlaen at groesawu Eisteddfod yr Urdd i'n hardal ni eleni, allem ni ddim wedi gofyn am well wythnos!

"Roedd gweld y GwyddonLe dan ei sang drwy gydol yr wythnos yn adlewyrchiad o'r arlwy eang a dengar sydd gennym ym Mhrifysgol Abertawe heb sôn am allu arbennig ein staff i gyfleu gwyddoniaeth mewn dull mor atyniadol a bywiog.

"Mae'r GwyddonLe bob amser yn denu torfeydd ond roedd cynulleidfaoedd eleni yn fwy nag erioed, gyda'r holl weithgareddau gwych yn cael eu cyflwyno gyda brwdfrydedd ac angerdd diolch i staff y Brifysgol.

"Mae Prifysgol Abertawe yn hynod falch o'r bartneriaeth lwyddiannus sydd  rhyngom ag Urdd Gobaith Cymru ac Eisteddfod yr Urdd a'r cyfle mae'n ei roi i ni ddenu pobl ifanc - a darpar fyfyrwyr - at lwybrau astudio cyfrwng Cymraeg ar draws yr amrywiol wyddorau."








# Trafodaeth amserol am ddeallusrwydd artiffisial

Y rhan y gallai deallusrwydd artiffisial ei chwarae mewn dyfodol gofal iechyd yng Nghymru oedd testun cystadleuaeth siarad cyhoeddus Eisteddfod yr Urdd eleni.

Caiff Her Sefydliad Morgan ei noddi bob blwyddyn gan y sefydliad ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe er cof am y cyn-brif weinidog Rhodri Mogan, ac eleni, fel arfer, cafodd ei chynnal ar lwyfan y GwyddonLe.

Yr arbenigwr mewn niwrobioleg, Dr Jeff Davies (gweler stori ar dudalen 2) a osododd y testun, ac ef hefyd a feirniadodd y gystadleuaeth ar y cyd â Sioned Williams, sy'n cynrychioli Gorllewin De Cymru yn Senedd Cymru.



Dwy ysgol sy'n hen gyfarwydd â chystadleuaeth yr Her oedd yn cymryd rhan, sef Ysgol Gyfun Bryn Tawe ac Ysgol Gwent Is Coed. Siaradodd dau o bob ysgol o blaid y cynnig: "Gallai deallusrwydd artiffisial chwarae rôl hanfodol yn nyfodol gofal iechyd yng Nghymru", a dau arall o bob ysgol yn erbyn.

Gyda chlod uchel i'r pedwar am siarad yn aeddfed ac angerddol gan gyflwyno'u dadleuon mewn modd deallus a chlir, Gethin Clarke o Ysgol Gwent Is Coed a enillodd fel y siaradwr gorau o blaid y pwnc, a Hari James o Ysgol Bryn Tawe oedd y siaradwr gorau yn erbyn.

Bydd y ddwy ysgol yn derbyn gwobr ariannol yn sgil llwyddiant y ddau siaradwr buddugol.

O'r ddau ar y brig, Hari James a gipiodd y brif wobr ac ef yw deiliad tlws Her Sefydliad Morgan 2025, a bydd hefyd yn derbyn gwobr ychwanegol o brofiad gwaith o'i ddewis a gaiff ei drefnu gan Academi Hywel Teifi.

"Roedd hi'n brofiad gwych beirniadu Her Sefydliad Morgan eleni yn enwedig gyda'r Eisteddfod yn ymweld â'n hardal ni," meddai Dr Jeff Davies.

"Gyda deallusrwydd artiffisial yn chwarae rôl gynyddol yn ein bywydau pob dydd, roedd gosod hwn yng nghyd-destun gofal iechyd yn drafodaeth amserol tu hwnt.

"Roedd hi'n amlwg bod gwaith paratoi trylwyr tu ôl i ddadleuon yr holl gystadleuwyr, a phob un ohonynt wedi mynd ati eu hunain mewn modd hyderus a medrus gan greu dipyn o benbleth i ni fel beirniaid! Gyda safon mor uchel, roedd y penderfyniad yn anodd ond Hari aeth â hi yn y diwedd."

# Hyfforddi athrawon Hanes a Daearyddiaeth

O fis Medi ymlaen bydd Hanes a Daearyddiaeth yn cael eu cynnig fel pynciau i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r rhain yn ychwanegol at y pynciau craidd sydd wedi cael eu cynnig dros y pum mlynedd ddiwethaf gan gynnwys Cymraeg a Saesneg, Ieithoedd Modern, Gwyddoniaeth, Mathemateg a Chyfrifiadureg.

"Rydym wedi cael ymateb da i'r ddarpariaeth newydd, gyda phymtheg o ddarpar fyfyrwyr eisoes wedi cael eu derbyn," meddai Rhiannon Pugsley, Uwch Ddarlithydd ym maes Addysg Gychwynnol Athrawon yn Adran Addysg y Brifysgol. "Mae'r cyrsiau'n dal yn agored, ac fe fydd modd ymgeisio tan ŵyl y banc ddiwedd mis Awst, felly rydyn ni'n gobeithio croesawu llawer mwy."

Bydd darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar gael ar gyfer y ddau bwnc newydd.

"Mae cyfle i bob myfyriwr Cymraeg ei iaith – beth bynnag eu pynciau - wneud profiad ymarferol dysgu mewn ysgol gyfrwng Cymraeg," meddai Rhiannon. "Yn achos y cyrsiau Hanes a Daearyddiaeth newydd, fe fydd y seminarau hefyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Daw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yr adran o Gymru, ond daw cryn dipyn o Loegr hefyd, gan gynnwys myfyrwyr sydd o Gymru a aeth dros y ffin i ddilyn eu cwrs gradd gychwynnol ond sy'n dychwelyd ar gyfer eu hyfforddiant proffesiynol."

# Disgyblion ysgol yn dangos y ffordd

Cafodd disgyblion chweched dosbarth sy'n astudio Daearyddiaeth yn Ysgol Ystalyfera gyfle i addysgu darpar athrawon mewn gweithdy arloesol ym Mhrifysgol Abertawe yn ddiweddar.

"Diben y gweithdy oedd codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion o bryderon yr ifanc am yr amgylchedd a phwysleisio pwysigrwydd cynaliadwyedd," meddai Rhiannon Pugsley.

"Y syniad oedd annog athrawon ar draws y cwricwlwm i roi sylw i'r angen i ofalu am y ddaear, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar athrawon daearyddiaeth a gwyddonwyr i wneud hynny.

Roedd y gweithdy ar ffurf cynllun 'Teach the Teacher' gan SOS-UK, elusen o dan fyfyrwyr sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo cynaliadwyedd.

"Roedd hefyd yn gydnaws â dinasyddiaeth fyd-eang sydd ymhlith dibenion allweddol y Cwricwlwm i Gymru," meddai Rhiannon.

"Roedd yn gyfle gwych i'r darpar athrawon ddeall am y cyfleoedd fydd ganddyn nhw i gyfrannu at addysg yn ei chyfanrwydd, a hefyd i godi hyder y rhai nad oes ganddyn nhw arbenigedd yn y maes. Roedd y pethau'r oedd gan y disgyblion i'w ddweud yn agoriad llygad."

Ar ôl eu cyflwyniad i'r myfyrwyr, cafodd y disgyblion dreulio'r prynhawn yn Adran Ddaearyddiaeth y Brifysgol.

"Roedd hyn yn rhoi profiad iddyn nhw o fywyd yn y Brifysgol, fel y bydd ganddyn nhw syniad o beth i'w ddisgwyl os byddan nhw'n dod yma fel myfyrwyr," meddai Rhiannon.

"Roedd y diwrnod felly o fudd mawr i bawb, ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill i gynnal gweithdy arall tebyg yn yr hydref."






# Datblygiadau Cymraeg ym maes Therapi Galwedigaethol

O fis Medi 2025, bydd y radd Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnig **40 credyd y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg - yr unig gwrs Therapi Galwedigaethol yng Nghymru** i gynnig o leiaf 40 credyd y flwyddyn yn Gymraeg! Mae myfyrwyr sy'n dewis y llwybr Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe bellach yn gymwys i ymgeisio am Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg ac ysgoloriaethau Academi Hywel Teifi y Brifysgol.

Mae Therapi Galwedigaethol yn yrfa werth chweil sy'n galluogi ein myfyrwyr i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl. Trwy gydol y cwrs Therapi Galwedigaethol, bydd myfyrwyr yn dysgu'r sgiliau i helpu pobl i oresgyn anawsterau a achosir gan salwch, anabledd, damweiniau neu heneiddio.

"Rydym yn hynod falch o allu cynnig darpariaeth sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg ar ein rhaglen Therapi Galwedigaethol," meddai Alexander Smith, Uwch Ddarlithydd Therapi Galwedigaethol. "Mae gallu cynnig 40 credyd y flwyddyn trwy'r Gymraeg yn garreg filltir gyffrous – y cam cyntaf mewn cynllun strategol i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y rhaglen. Mae un o'r modiwlau Cymraeg yn seiliedig ar leoliad gwaith ymarferol, gan sicrhau effaith uniongyrchol ar ddefnydd y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol – sy'n cyd-fynd yn llawn â gweledigaeth *Mwy Na Geiriau*."

Ychwanegodd Dr Alwena Morgan, Arweinydd y Gymraeg yng Nghyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd ac aelod o Banel Cynghori *Mwy na Geiriau*, "Mae'r datblygiad hwn yn adlewyrchu strategaeth Prifysgol Abertawe i gryfhau'r Gymraeg mewn addysg uwch, a chyfrannu'n gadarnhaol at nodau Llywodraeth Cymru a chynllun *Mwy na Geiriau* i greu diwylliant o gynnig gwasanaethau Cymraeg er mwyn i bobl dderbyn gofal, fel partneriaid cyfartal, drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gam arall sy'n cynrychioli ein hymrwymiad cadarn i gefnogi myfyrwyr Cymraeg, ac i sicrhau bod gweithlu iechyd y dyfodol yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog o safon."

Bydd y ddarpariaeth newydd ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau'r cwrs Therapi Galwedigaethol ym mis Medi 2025.

# Ystafell i groesawu'r cenhedloedd ynghyd

Mae un o gyn-fyfyrwyr hael Prifysgol Abertawe wedi ariannu ystafell newydd sbon sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr o wahanol genhedloedd a diwylliannau ledled y byd ddod at ei gilydd.

Nod y Lolfa Groeso yn adeilad eiconig y Brifysgol, Tŷ Fulton, yw darparu lle bywiog i ddod â myfyrwyr ynghyd, dathlu amrywiaeth, a chreu cymuned groesawgar i bawb.

Mae bellach yn fan cyfarfod i fyfyrwyr lleol a rhyngwladol, gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau, digwyddiadau a chyfleoedd i ddod ynghyd.

Gweledigaeth cyn-fyfyriwr o Hong Kong, a raddiodd ym Mhrifysgol Abertawe yn 1989 mewn Gwyddor Rheolaeth, yw'r Lolfa a'i obaith yw helpu myfyrwyr i feithrin cysylltiadau



parhaol a'u cefnogi i ffynnu yn eu hamgylchedd newydd.

Dychwelodd Mr Shin i Gampws Singleton y Brifysgol i weld ei weledigaeth yn cael ei gwireddu wrth i'r Lolfa agor yn swyddogol fis Mai eleni. Roedd yn gyfle iddo hefyd weld murlun newydd sbon y Lolfa Groeso, sy'n cynnwys draig Gymreig a draig Tsieineidd yn wynebu ei gilydd. Mae'r murlun hefyd yn cynnwys cefnlen o batrymau eiconig carthenni Cymreig.


Yn ystod y digwyddiad cafwyd arddangosfeydd diwylliannol, gweithgareddau rhyngweithiol a chyfle i flasu bwyd o Gymru ac o bedwar ban byd. Bu cyfle hefyd i fwynhau cerddoriaeth fyw fel rhan o'r agoriad swyddogol gan gynnwys perfformiad gan aelodau'r GymGym, Casi Jones a Dewi Moc, yn canu 'Anfonaf Angel'.

Meddai Niamh Lamond, Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu Prifysgol Abertawe:

"Mae'r Lolfa Groeso yn fwy na lle yn unig – mae'n cyfrannu at werthfawrogiad diwylliannol a chyfeillgarwch byd-eang. Gobeithiwn y bydd yn helpu myfyrwyr i deimlo'n gartrefol yma, boed eu bod yn dod o Abertawe neu São Paulo."







# Lleisiau cryf dros fuddiannau'r myfyrwyr

***Fel elusen sy'n llais i dros 20,000 o fyfyrwyr, mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe bresenoldeb amlwg ar ddau gampws y Brifysgol. Yn ogystal â rhedeg siopau a bariau, mae'n cynnal tua 280 o ddigwyddiadau i fyfyrwyr bob blwyddyn. Ymhlith y chwech o swyddogion llawn-amser etholedig sy'n rhedeg yr Undeb, mae dwy sy'n rhugl eu Cymraeg, sef y Llywydd, Carys Dukes, a Tanwen Moon, y Swyddog Materion Cymraeg. Dywed y ddwy eu bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu gwaith dros y flwyddyn nesaf…***

## Camu ymlaen i brif swydd yr Undeb

Mae llywydd newydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn hen gyfarwydd ag ymgyrchu dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg.

Treuliodd **Carys Dukes** y flwyddyn ddiwethaf fel Swyddog Materion Cymraeg yr Undeb, a thrwy hynny gael profiad o redeg yr Undeb fel aelod o'r tîm o chwech o swyddogion llawn-amser etholedig.

"Fe wnes i fwynhau'r flwyddyn yn fawr iawn," meddai'r ferch o Gricieth yng Ngwynedd a raddiodd mewn Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus yn Abertawe y llynedd.



"Un o'r prif uchafbwyntiau oedd rhedeg ymgyrch Llywodraeth Cymru i hybu Defnyddio'r Gymraeg y llynedd, ac roedd yn wych gweld cynifer o fyfyrwyr Cymraeg mor weithgar efo'r Eisteddfod Ryng-golegol ac Eisteddfod yr Urdd wrth iddi ymweld â'r ardal.

"Ro'n i'n falch hefyd o lwyddo i sicrhau lleisiau Cymraeg ymhlith cynrychiolwyr yr Undeb mewn gwahanol adrannau addysgol y Brifysgol.

"Wrth ddymuno'n dda i Tanwen fel fy olynydd, mi hoffwn ddiolch yn arbennig i Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am bob cymorth ges i.

"Maen nhw wedi bod yn ysgwydd i bwyso arnyn nhw pryd bynnag o'n i angen help a dw i wedi gwerthfawrogi hynny'n fawr."

Dywed ei bod wrth ei bodd o gael y cyfle i barhau i gynrychioli myfyrwyr Prifysgol Abertawe am flwyddyn arall.

"Dw i wedi gwneud cymaint o ffrindiau da yma, ac oherwydd fy mhrofiad ro'n i'n teimlo bod gen i fwy i'w roi i'r Undeb ac i'r Brifysgol," meddai.

"Un peth sy'n bwysig iawn i mi ydi bod yn llais i fyfyrwyr, ac un o'm blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf fydd gwrando ar beth fydd ganddyn nhw i'w ddweud, a beth sydd arnyn nhw ei angen gynnon ni."

SWANSEA UNIVERSITY STUDENTS' UNION
UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE



## 'Y Gymraeg yn rhan annatod o'm bywyd'

**Tanwen Moon** yw olynydd Carys fel Swyddog Materion Cymraeg yr Undeb.

Wrth gychwyn ar ei swydd newydd, dywed y ferch o Drefach yn Sir Gâr fod y Gymraeg wedi bod yn rhan annatod o'i bywyd erioed.

Mae hi newydd orffen ei blwyddyn olaf fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe yn astudio Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

"Fe wnes i ymgeisio am rôl Swyddog Materion Cymraeg, gan fy mod i eisiau gweld y Gymraeg yn cael ei chlywed a'i defnyddio'n gyson ar y campws, ac yn berthnasol i fywyd myfyrwyr heddiw.

"Fy nod eleni felly yw hyrwyddo'r Gymraeg fel rhywbeth positif a normal ym mywyd y Brifysgol, gan greu digwyddiadau cynhwysol a chyfleon i fyfyrwyr – boed yn rhugl neu'n ddysgwyr – i gymryd rhan. Dwi'n edrych ymlaen at gydweithio'n agos gyda chymdeithasau Cymraeg, Academi Hywel Teifi a'r Undeb i wneud hyn yn bosib.

"Mae'n fraint cael y cyfle i gynrychioli myfyrwyr Cymraeg ac i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn fyw, yn weladwy ac yn naturiol ar bob lefel yn y Brifysgol."

Prifysgol Abertawe Swansea University

Prifysgol Abertawe | AcademiHywelTeifi

@Prif_Abertawe flickr

01792 205678
www.abertawe.ac.uk